# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 11EG RHAGFYR, 2017**

**(I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda,**

**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 1 Rhagfyr 2017)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Peter Read
Steve Collings
Dafydd Owen
Rheinallt Puw
Elfed Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Sedd wag

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Gareth Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11.9.17 fel rhai cywir

## 5. ASESIAD CYDRADDOLDEB Y POLISI HAPCHWARAE

Derbyn diweddariad ar lafar ar Asesiad Cydraddoldeb y Polisi Hapchwarae

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 11.09.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Daniels, Annwen Hughes, , Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason W Parry, Rheinallt Puw, Peter Read, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a Dewi Wyn Roberts

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 o Fehefin 2017 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 26.7.17 a 2.8.17

### 6. ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE

Cyflwynwyd adroddiad drafft gan Pennaeth yr Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo cynnwys y polisi, yn unol a Deddf Hapchware 2005, ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

Atgoffwyd yr Aelodau, yng nghyfarfod Pwyllgor 6.3.17 wrth drafod y polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, bod pryderon wedi codi ynglŷn ag amlder hysbysebion hapchwarae oedd yn ymddangos ar sianeli teledu a'r rhyngrwyd.

Amlygwyd, bod yr Adran Trwyddedu wedi cyfleu'r pryderon i'r Comisiwn Hapchwarae, a bellach wedi derbyn ymateb i'r pryderon hynny. Fe ddarllenwyd y llythyr allan yn y cyfarfod. Nodwyd bod y *'Department for Digital, Culture, Media & Support' (DCMS)* wedi cwblhau arolwg gyda thystiolaeth i'w gyhoeddi at ddiwedd mis Hydref 2017. Tybiwyd y byddai'r dystiolaeth yn ymateb mewn rhyw fodd i'r pryderon a amlygwyd gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb i'r llythyr gwnaed sylw bod sawl awdurdod yn gyfrifol am y gadw rheolaeth a bod angen i'r Cyngor gadw llygad ar y mater ac ystyried canfyddiadau'r adolygiad pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

Derbyniwyd y wybodaeth a gyflwynwyd yn y llythyr.

Nodwyd bod Adran 349 o'r Ddeddf Hapchwarae yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu, bob tair blynedd, baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion trwyddedu y maent yn dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf. Nodwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal am gyfnod o 12 wythnos ac ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

Eglurwyd mai'r cam nesaf fydd i'r polisi drafft gael ei asesu gan y Swyddog Cydraddoldeb. Wedi hynny bydd yr Aelod Cabinet yn cyflwyno'r Datganiad i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 gan ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn, yn dilyn asesiad gan y Swyddog Cydraddoldeb.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.45am